Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru
North Wales Corporate Joint Committee

CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD

11 Hydref, 2024

TEITL: Is-Bwyllgor Trafnidiaeth Strategol – aelodaeth gyfetholedig

AWDUR: Iwan Evans, Swyddog Monitro

## 1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

1.1. Cymeradwyo penodi'r aelodau cyfetholedig a ganlyn (heb bleidlais) i Is-Bwyllgor Trafnidiaeth Strategol y CBC:

- Cynrychiolydd Parc Cenedlaethol Eryri
- Cynrychiolydd Trafnidiaeth Cymru

## 2. Y RHESWM DROS Y PENDERFYNIAD

2.1. Mae gan y CBC gyfrifoldeb statudol dros ddatblygu polisi trafnidiaeth strategol ar sail ranbarthol o ran ardal pob cyngor cyfansoddol.

2.2. Mae'r Swyddog Monitro wedi'i awdurdodi i dderbyn (a phenodi fel aelodau cyfetholedig) unrhyw newidiadau i aelodaeth is-bwyllgorau'r CBC fel yr hysbyswyd, ar yr amod bod y penodiadau hyn yn cael eu hadrodd i gyfarfod nesaf y CBC.

## 3. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

3.1. Mae'r Is-Bwyllgor Trafnidiaeth Strategol, ei aelodaeth, ei hawliau pleidleisio, ei Gylch Gorchwyl a'i Reolau Sefydlog yn cael eu sefydlu yn dilyn cymeradwyaeth gan y CBC. Gall y CBC gyfethol un neu fwy o unigolion fel aelodau o'r CBC (aelod cyfetholedig) ar y telerau y mae'n eu penderfynu. Rhaid i'r telerau hynny nodi swyddogaethau'r CBC y gall yr aelod cyfetholedig eu cyflawni, fel y nodir yn y cytundebau cyfethol (***Atodiad 1***).

3.2. Mae'r adroddiad hwn yn adnabod yr aelodau hynny i gael eu cyfethol i'r Is-Bwyllgor Trafnidiaeth Strategol. Yn eu cyfarfod cyntaf a gynhaliwyd ar 1 Hydref 2024, argymhellodd yr Is-Bwyllgor gyfethol y ddau aelod hyn i gefnogi gwaith yr Is-Bwyllgor. Maent yn cynnig sgiliau ac arbenigedd penodol mewn perthynas â'r Parc Cenedlaethol, ac yn genedlaethol o ran swyddogaethau Trafnidiaeth Cymru, sy'n gweithio'n agos gyda'r CBC i ddatblygu'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol. Argymhellir bod hyn am gyfnod cychwynnol tan 31 Mawrth, 2025.

ATODIADAU:

**Atodiad 1:** Cytundeb Cyfethol

Uchelgais Gogledd Cymru
Ambition North Wales

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro:

Awdur yr adroddiad.

ii. Swyddog Cyllid Statudol:

"Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb ariannol."